OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 619 (Cy.61)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli cyfeiriadau at "Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" â chyfeiriadau at "Gweinidogion Cymru" ac, fel y bo'n briodol, yn disodli cyfeiriadau at "Divisional Veterinary Manager" â chyfeiriadau at "Welsh Ministers" yn–

(a) Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996;

(b) Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006;

(c) Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006;

(ch) Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006; a

(d) Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei lunio ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan na ragwelir y byddant yn effeithio o gwbl ar y sector preifat, y sector cyhoeddus na'r sector gwirfoddol.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 619 (W.61)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

## The Animals (Divisional Veterinary Managers) (Wales) Regulations 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations )*

These Regulations replace references to "Divisional Veterinary Manager" with "Welsh Ministers" in–

(a) the Products of Animal Origin (Import and Export) Regulations 1996;

(b) the Foot-and-Mouth Disease (Control of Vaccination) (Wales) Regulations 2006;

(c) the Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2006;

(d) the Avian Influenza (Vaccination) (Wales) (No. 2) Regulations 2006; and

(e) the Bluetongue (Wales) Regulations 2008.

A regulatory impact assessment has not been prepared for these Regulations as no impact on the private, public or voluntary sectors is foreseen.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 619 (Cy.61)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mawrth 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *8 Mawrth 2010* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010.

**Diwygiadau i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996**

**2**.–(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) mae'r diffiniad o "Divisional Veterinary Manager" wedi ei ddirymu.

(3) Yn rheoliadau 13(5) a (6) a 16(8), yn lle'r geiriau "appropriate Divisional Veterinary Manager", ym mhob man y maent yn ymddangos, rhodder "Welsh Ministers".

(**1**) O.S 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p. 68.

(**3**) O.S. 1996/3124 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 619 (W.61)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

# The Animals (Divisional Veterinary Managers) (Wales) Regulations 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *4 March 2010* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *8 March 2010* |
| *Coming into force* | *1 April 2010* |

The Welsh Ministers are designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to the common agricultural policy of the European Community and, in exercise of the powers conferred by that section, make the following Regulations:

**Title and commencement**

**1**. The title of these Regulations is the Animals (Divisional Veterinary Managers) (Wales) Regulations 2010; they apply in relation to Wales and come into force on 1 April 2010.

**Amendments to the Products of Animal Origin (Import and Export) Regulations 1996**

**2**.–(1) The Products of Animal Origin (Import and Export) Regulations 1996(**3**) are amended as follows.

(2) In regulation 1(2) the definition of "Divisional Veterinary Manager" is revoked.

(3) In regulations 13(5) and (6) and 16(8), for the words "appropriate Divisional Veterinary Manager", in each place that they occur, substitute "Welsh Ministers".

(**1**) S.I 2005/2766. By virtue of sections 59 and 162 of, and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, functions conferred upon the National Assembly for Wales are exercisable by the Welsh Ministers.

(**2**) 1972 c. 68.

(**3**) S.I. 1996/3124 to which there are amendments not relevant to these Regulations.

**Diwygiad i Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006**

**3**. Yn rheoliad 23(1) o Reoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006(**1**), yn lle "a'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol o Wasanaeth Milfeddygol y Llywodraeth" rhodder "a Gweinidogion Cymru".

**Diwygiad i Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006**

**4**. Yn rheoliad 13 o Reoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006(**2**), yn lle "ar unwaith y Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer yr ardal lle mae'r aderyn hwnnw" rhodder "Gweinidogion Cymru ar unwaith".

**Diwygiad i Reoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006**

**5**. Yn lle rheoliad 11 o Reoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006(**3**) rhodder–

"**11**. Rhaid i unrhyw berson a ŵyr neu a dybia nad yw aderyn wedi ei frechu, fel sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru, eu hysbysu ar unwaith."

**Diwygiad i Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008**

**6**.–(1) Mae Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Mae rheoliad 8(3) wedi ei ddirymu.

(3) Yn rheoliadau 8(1)(a) a (2) ac 11(b) yn lle "hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" rhodder "hysbysu Gweinidogion Cymru".

**Amendment to the Foot-and-Mouth Disease (Control of Vaccination) (Wales) Regulations 2006**

**3**. In regulation 23(1) of the Foot-and-Mouth Disease (Control of Vaccination) (Wales) Regulations 2006(**1**), for "Divisional Veterinary Manager of the State Veterinary Service for the area in which that animal is located" substitute "Welsh Ministers".

**Amendment to the Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2006**

**4**. In regulation 13 of the Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2006(**2**), for "Divisional Veterinary Manager appointed by the National Assembly for the area in which that bird is located" substitute "Welsh Ministers".

**Amendment to the Avian Influenza (Vaccination) (Wales) (No. 2) Regulations 2006**

**5**. For regulation 11 of the Avian Influenza (Vaccination) (Wales) (No. 2) Regulations 2006(**3**) substitute–

"**11**. Any person who knows or suspects that a bird has not been vaccinated as required by the Welsh Ministers must notify them immediately."

**Amendment to the Bluetongue (Wales) Regulations 2008**

**6**.–(1) The Bluetongue (Wales) Regulations 2008(**4**) are amended as follows.

(2) Regulation 8(3) is revoked.

(3) In regulations 8(1)(a) and (2) and 11(b) for "Divisional Veterinary Manager" substitute "Welsh Ministers".

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2010

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

4 March 2010

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2006/180 (Cy. 31).

(**2**) O.S. 2006/2803 (Cy. 242).

(**3**) O.S. 2006/2932 (Cy. 265).

(**4**) O.S. 2008/1090 (Cy. 116).

(**1**) S.I. 2006/180 (W. 31).

(**2**) S.I. 2006/2803 (W. 242).

(**3**) S.I. 2006/2932 (W. 265).

(**4**) S.I. 2008/1090 (W. 116).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 619 (Cy.61)

## ANIFEILIAID, CYMRU

### IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Anifeiliaid (Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol) (Cymru) 2010

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 619 (W.61)

## ANIMALS, WALES

### ANIMAL HEALTH

The Animals (Divisional Veterinary Managers) (Wales) Regulations 2010

£4.00

W647/03/10 ON